

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

36/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

30/03/2022



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# O'r Ddeddf i'r Effaith

Adroddiad Terfynol o Werthusiad Deddf  
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Adroddiad Cryno

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-562-5

## O'r Ddeddf i'r Effaith?

### Adroddiad Terfynol ar Werthusiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiad Cryno

Mark Llewellyn, Fiona Verity, Sarah Wallace, Gideon Calder, Tony Garthwaite, Jennifer Lyttleton-Smith, a Simon Read

Llewellyn M, Verity F, Wallace S, Calder G, Garthwaite T, Lyttleton-Smith J, a Read S (2022) *O'r Ddeddf i'r Effaith? Adroddiad Terfynol ar Werthusiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Adroddiad Cryno*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 36/2023. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/adroddiad-terfynol-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014>.

## IMPACT: Gwerthusiad Cenedlaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

### *Tîm y Astudiaeth:*

Mark Llewellyn, Fiona Verity, Pippa Anderson, Catrin Awoyemi, Nick Andrews, Heulwen Blackmore, Noreen Blanluet, Gideon Calder, Tony Garthwaite, Wahida Kent, Jen Lyttleton-Smith, Alison Orrell, Ceri Phillips, Malcolm Prowle, Jonathan Richards, Roiyah Saltus, Sion Tetlow, Carolyn Wallace a Sarah Wallace.

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru; Prifysgol Abertawe; Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Prifysgol Bangor



Cardiff  
Metropolitan  
University



### *Prif Arweinydd yr Astudiaeth:*

#### **Yr Athro Mark Llewellyn<sup>1</sup>**

Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ac Athro Polisi Iechyd a Gofal

Prifysgol de Cymru

[mark.llewellyn@southwales.ac.uk](mailto:mark.llewellyn@southwales.ac.uk)

<sup>1</sup> [Welsh Institute for Health and Social Care](#), Prifysgol De Cymru:

[WIHSC Staff | University of South Wales](#)

Dydy'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ddim o anghenraid yn farn Llywodraeth Cymru. Am ragor o fanylion , cysylltwch ag:

Adran Gwasanaethu Cymdeithasol ac Integreiddio  
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: [research.healthandsocialservices@gov.wales](mailto:research.healthandsocialservices@gov.wales)

## Tabl y Cynnwys

1.	Rhagarweiniad/Cefndiir .....	2
	Dull o fynd ati .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	Cyd-destun .....	5
2.	Cydsyniadoli: mynegi egwyddorion y gellir eu gwerthuso a'r Ddeddf .....	7
3.	Gweithredu: glynu at egwyddorion y Ddeddf yn ymarferol .....	9
4.	Optimeiddio: caniatáu i'r egwyddorion gyflenwi'r canlyniadau dymunol o dan y Ddeddf .....	12
5.	O'r Ddeddf i'r Effaith? Argymgellion a chwestiynau prawf ar gyfer trawsnewid .....	15
	'Cwestiynau prawf' wedi'u mapio i fwriadau strategol y Ddeddf .....	19
	Sylwadau clo .....	19

## Diolchiadau

Hoffai'r tîm ymchwil gydnabod cyfraniad nifer o bobl na fyddai'r astudiaeth hon wedi bod yn bosibl hebddyn nhw. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i bawb sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a weithredodd fel porthorion i ni yn ein gwaith. Mae gennym ddyled fawr i'r awdurdodau lleol hynny a ddarparodd ddata ar ein cyfer a chaniatáu i'w staff gael eu cyfweld. Rydyn ni'n ddiolchgar bod cymaint o weithwyr rheng flaen a rheolwyr o'r sectorau annibynnol, gwirfoddol a'r sector cyhoeddus wedi bod yn awyddus i achub ar y cyfle i siarad â'r tîm a'n gobaith ydy eu bod yn teimlo bod eu cyfraniadau yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn yr astudiaeth.

Sefydlon ni Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth yn cynnwys sefydliadau rhanddeiliaid ar draws Cymru, ac rydyn ni'n sylweddoli rôl mor bwysig y chwaraeon nhw yn ein gwaith. Cynhaliwyd y grŵp yn wych gan ein tair cyd-gadeiryddion o ddinasyddion – Karen, Margaret ac Ana. Hoffen ni ddiolch iddyn nhw am eu hymroddiad i'r astudiaeth ac am gynnig her a gwrando'n effeithiol ar ein syniadau drwy gydol yr astudiaeth. Yn olaf rydyn am gydnabod rôl defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr am roi o'u hamser i siarad â ni. Yn aml, roedd ein sgysiau – yn enwedig yn ystod COVID – dan len emosiynau pobl oedd yn sylweddoli er nad oedd pethau'n berffaith, roedden nhw'n dal wedi ymrwymo'n llwyr i wella pethau. Ein gobaith ydy ein bod wedi cynrychioli eu barn yn deg ac y bydd eu tystiolaeth yn sail i'r hyn fydd yn digwydd nesaf yn ystod oes *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

## Rhestr Termau

Term	Diffiniad
<b>ALLau</b>	Awdurdodau Lleol
<b>Atal ac Ymyriad Cynnar</b>	Egwyddor y Ddeddf sy'n ceisio sicrhau y gall pobl gyrchu cymorth er mwyn rhwystro sefyllfa rhag gwaethygu ac i wella wrth gynnal llesiant yr unigolyn a chyd-llesiant mae pwyslais pennaf yr egwyddor ar gynyddu gwasanaethau ataliol o fewn cymunedau er mwyn rhwystro angen critigol rhag dwysáu.
<b>Cartrefi Gofal</b>	Cartrefi gofal ydy mannau preswyl ar gyfer plant, oedolion a phobl hŷn (yn nodweddiadol). Mae dau fath o cartref gofal (preswyl a nyrsio) a bydd pobl yn byw yn y cartref sy'n gweddu orau i'w hanghenion. Gall cartrefi gofal gael eu rhedeg gan gwmnïau preifat neu sefydliadau gwirfoddol neu elusennol neu weithiau gan gynghorau lleol.
<b>Cyd-Gynhyrchu</b>	Mae egwyddor y Ddeddf yn anelu at ymglymu pobl yn fwy yng nghynllun a darpariaeth eu gofal. Mae'n golygu bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr i wneud eu gofal y gorau all fod.
<b>Gofal Cartref</b>	Diffinnir gofal cartref fel yr ystod o wasanaethau a sefydlir i gynorthwyo unigolion yn eu cartrefi eu hunain. Gallai gwasanaethau gynnwys tasgau arferol cadw tŷ o fewn a thu allan i'w cartref, gofal personol y cleient a'r gwasanaethau domestig eraill cysylltiedig sy'n angenrheidiol i gynnal lefel dderbyniol o iechyd, hylendid, urddas, diogelwch ac esmwythder yn eu cartref eu hunain.
<b>Gofalwr</b>	Diffiniad y Ddeddf/ <a href="#">Act</a> o ofalwr ydy "unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal ar gyfer oedolyn neu blentyn anabl ...nid gofalwr at ddibenion y Ddeddf hon ydy person sy'n darparu gofal o dan gontract neu yn rhinwedd contract." At ddibenion ein hastudiaeth ni, ac felly'n cyd-redeg â'r ddeddfwriaeth, mae'r term 'gofalwr' yn cyfeirio at y rhai sydd ddim yn cael eu talu am eu gwaith – cyfeirir at yr rhai hynny sy'n cynnig gofal o dan gontract neu yn rhinwedd fel gweithwyr gofal neu fel rhan o'r gweithlu.
<b>Gweithio'n Aml-Asiantaethol</b>	Egwyddor y Ddeddf sy'n atgyfnerthu cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael yn y cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb hollgyffredinol y Ddeddf yn datgan bod gofyn am gydweithrediad a phartneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus'
<b>Llais a Rheolaeth</b>	Egwyddor y Ddeddf sy'n ceisio gosod unigolion a'u hanghenion ynghanol eu gofal a'u cymorth a rhoi llais iddyn nhw yn, a rheolaeth dros, y canlyniadau a all eu helpu i gyflawni llesiant a'r pethau sydd bwysicaf iddyn nhw.
<b>Llesiant</b>	Egwyddor y Ddeddf sy'n sicrhau bod llesiant ym mhob rhan o fywyd pobl. Mae llesiant yn fwy na chadw'n iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel a hapus, cael dewis a derbyn y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gref, cael ffrindiau a pherthynas sy'n dda i chi a chael hobïau, gwaith neu ddysgu pethau. Mae'n ymwneud â chynorthwyo pobl i gyflawni eu llesiant eu hunan a mesur llwyddiant y gofal a'r cymorth.
<b>P-FE</b>	Gwerthuso Wedi'i Ffocysu ar Egwyddorion
<b>SERG</b>	Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth
<b>'Sgwrs am 'Yr Hyn sy'n Bwysig'</b>	Mae sgwrsiau ar 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn fodd i weithwyr proffesiynol ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant cyfredol a'r hyn y gellir ei wneud i'w cynorthwyo. Mae'n sgwrs gyfartal ac yn bwysig i sicrhau bod llais yr unigolyn neu'r gofalwr yn cael ei glywed a'r 'Hyn sy'n Bwysig' iddyn nhw.
<b>Taliadau Uniongyrchol</b>	Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion a/neu eu gofalwyr yr aseswyd bod ganddyn nhw anghenion gofal cymwys i chwilio am ofal sydd wedi'i deilwra i'w anghenion yn hytrach na defnyddio darparwyr statudol sydd eisoes yn bodoli. Eu bwriad ydy cynnig mwy o hyblygrwydd, annibyniaeth a dewis a rheolaeth dros y cymorth y mae pobl hyn ei dderbyn.

## 1. Rhagarweiniad/Cefndir

- 1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth o academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru gydag ymgynghorwyr arbenigol i lunio gwerthusiad o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (cyfeirir ati o hyn allan fel 'Y Ddeddf'). Mae'r Adroddiad Terfynol ei hun (a Chrynodeb ohono ydy hwn) yn synthesis o'r dystiolaeth a gasglwyd dros oes Astudiaeth Werthuso IMPACT.<sup>2</sup>
- 1.2 Cynhaliwyd y gwerthusiad annibynnol cenedlaethol – [astudiaeth IMPACT](#)<sup>3</sup> rhwng Tachwedd 2018 a Hydref 2022 dan arweiniad yr Athro Mark Llewellyn, Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ym Mhrifysgol De Cymru (USW) ynghyd â'r Athro Fiona Verity, Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe. Roedd y bartneriaeth hefyd yn cynnwys cydweithwyr eraill o USW a Phrifysgolion Metropolitan Caerdydd a Bangor a Chanolfan PRIME Cymru, a chymorth gan [Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth](#)<sup>4</sup> gyda'i thair cyd-gadeiryddion o ddinasyddion.
- 1.3 Mae ein hastudiaeth werthuso – a'r Adroddiad Terfynol yn enwedig – yn cynrychioli asesiad annibynnol a gwrthrychol o weithrediad y Ddeddf a'r modd y mae wedi effeithio ar lesiant unigolion sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr ac ar y system ofal yng Nghymru.
- 1.4 Mae'r adroddiad terfynol yn adeiladu ar gyfres o gyhoeddiadau– [Fframwaith ar gyfer Newid](#), [Adolygu Llenyddiaeth](#), [Safbwyntiau'r Gweithlu ar weithrediad y Ddeddf](#), [Safbwyntiau'r gweithlu ar weithredu'r Ddeddf](#) (ar ôl COVID), [Disgwyliadau a Phrofiadau Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr](#), [Disgwyliadau a Phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr Du](#), [Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig](#), ac adroddiad manwl ar bob un o'r Egwyddorion ([Llesiant](#), [Atal ac ymyrraeth cynnar](#); [Cyd-gynhyrchu](#); [Llais a Rheolaeth](#); [Gweithio'n aml-asiantaethol](#)), ynghyd â dadansoddiad o [oblygiadau ariannol ac economaidd y Ddeddf](#) i ddod i gasgliadau am ein cwestiynau allweddol.

---

<sup>2</sup> Ceir yr adroddiad llawn yma: [Adroddiad Terfynol](#)

<sup>3</sup> Ceir ffilm ddwyieithog ragarweiniol yn egluro strwythur yr astudiaeth yma: [Ffilm gwerthuso'r Ddeddf / Act evaluation film – WIHSC - YouTube](#)

<sup>4</sup>Am ragor o wybodaeth am SERG, gweler: [Study Expert Reference Group | University of South Wales](#)

1.5 Wedi ei nodi fel ‘...rhan o raglen drawsnewid ehangach ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2013, tud.23),<sup>5</sup> mae’r Ddeddf yn gosod allan weledigaeth Llywodraeth Cymru i greu ‘newidiadau trawsnewidiol’ ym mholisi gwasanaeth cymdeithasol, rheoliad cymdeithasol a threfniadau cyflenwi ar draws Cymru. Mae iddi 11 rhan wedi’u seilio ar bum egwyddor: llesiant, llais a rheolaeth, ataliad ac ymyriad cynnar, gweithio’n aml-asiantaethol a chyd-gynhyrchu. Yn cyd-redeg â hi mae rheoliadau a chyfres o Godau Ymarfer.

### **Y dull o fynd ati**

1.6 Ochr yn ochr â’r pum egwyddor, nodon ni bum parth lle mae’r egwyddorion hynny yn ‘diwallu anghenion’ y bobl neu’r sefydliadau y bwriadwyd y Ddeddf ar eu cyfer – unigolion angen gofal a chymorth, eu gofawyr ac aelodau eu teuluoedd, y cymunedau lle maen nhw’n byw, y gweithlu sy’n eu cynorthwyo a’r sefydliadau sydd â chyfrifoldebau a dyletswyddau fel yr amlinellwyd yn y Ddeddf a’r Codau Ymarfer cysylltiol.

1.7 Mae’r astudiaeth yn defnyddio dull Michael Patton o fynd ati sef Gwerthuso gan ffocysu ar Egwyddorion (P-FE), mewn cyd-destunau cymhleth a ‘chfnewidiol iawn’. (2018, p.4). Mae tri chwestiwn canolog a gaiff eu hateb mewn gwerthusiad P-FE (Patton, 2018, tud. ix):

1. I ba raddau cafodd egwyddorion ystyrllon y gellir eu gwerthuso eu disgrifio?
2. Os mynegwyd egwyddorion, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y cedwir atyn nhw yn ymarferol?
3. Os cedwir atyn nhw, i ba raddau ac yma mha ffyrdd mae’r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau dymunol?

1.8 Mae’r Adroddiad Terfynol yn cyfuno’r holl dystiolaeth a ymddangosodd mewn adroddiadau eraill a luniwyd yn ystod oes yr astudiaeth, gan fynd i’r afael â thri chwestiwn gwerthuso P-FE.<sup>6</sup>

1.9 Clywon ni gan gyfanswm o dros 450 o gyfranogwyr ar draws Cymru, yn cynnwys defnyddiwr gwasanaeth, gofawr a grwpiau gweithlu a roddodd o’u hamser i adrodd eu profiadau o dan y Ddeddf, yn fanwl a chynhwysfawr o ystod o safbwyntiau.

---

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru (2013) *Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*, Memorandwm Eglurhaol Caerdydd – ar gael yn: [Social Services and Well-being Act Explanatory Memorandum](#).

<sup>6</sup> Am fanylion ar bob un o’r dogfennau gweler [Evaluation of the Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014](#).

Defnyddiwyd ystod o ddulliau methodolegol o fynd ati, yn cynnwys cyfweiliadau a grwpiau ffocws, dadansoddi dogfennau, profi a datblygu consensws ar-lein (trwy Fapio Cysyniad Grŵp), a gweithdai yn ffocysu ar y 'Newid Mwyaf Sylweddol'. Cynhyrchodd yr holl waith maes hwn swm sylweddol o ddata ansoddol a chynhaliwyd dadansoddiad sylweddol o themâu'r dystiolaeth a gasglwyd.<sup>6</sup>

- 1.10 Fel gydag unrhyw astudiaeth o'r maint a'r cymhlethdod hyn, rhaid nodi'r cyfyngiadau. Roedd rhain wedi eu canoli ar: ddiffyg data meintiol swyddogol cyffelyb i'w cymharu dros amser (boed hynny oherwydd newidiadau yn y modd y cesglir data, oherwydd bod eitemau newydd yn cael eu cynhyrchu am y tro cyntaf neu oherwydd yr heriau o gasglu data yn ystod COVID-19); y ffaith nad oedd rhai grwpiau arbennig mor amlwg yn yr astudiaeth ag yr hoffon ni (megis siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc oedd wedi profi gofal, er enghraifft); a'r diffyg capasiti o fewn y sector cyhoeddus i allu ymateb i geisiadau.<sup>7</sup>

### **Cyd-destun**

- 1.11 Yn ei fframwaith P-FE, mae Patton yn gofyn bod gwerthuswyr yn gweithio'n galed i ddeall cyd-destun yr astudiaeth. Mae P-FE yn ffocysu ar y modd mae egwyddorion yn arwain gweithrediad ymyriadau neu raglenni mewn cyd-destunau sy'n gymhleth, ansicr a 'chythryblus', ac i ba berwyl (Patton, 2018, tud. viii). Ar gyfer y Ddeddf roedd ffocws yr 'amgylcheddau' cyd-destunol hyn ar gymhlethdod y polisi, cymhlethdod cyflenwi gofal cymdeithasol, cymhlethdod dod o hyd i adnoddau a chymhlethdod anghenion y boblogaeth.
- 1.12 Cyflwynwyd y Ddeddf ar adeg oedd yn dilyn blynyddoedd o reolwriaeth a rhesymoliaeth economaidd mewn polisi cyhoeddus a chyflenwi gwasanaethau a thrafodaethau ynglyn â chystadleuaeth, hawliau'r unigolyn ac osgoi risg yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant. Roedd angen newid yn hinsawdd diwylliannol sefydliadau ar gyfer hwyluso cydweithredu mwy effeithiol gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalmwyr drwy rannu grym – a chreu mwy o integreiddio a chysylltiad rhwng asiantaethau ac ar draws sectorau.
- 1.13 Dwysawyd sialensiau'r cyd-destun a ddisgrifiwyd uchod gan bopeth a ddigwyddodd yn ystod ac ar ôl pandemig COVID-19. Mae'n amhosibl gorbwysleisio grym rhwygol y

---

<sup>7</sup> Am ragor o wybodaeth ar y rhain, gweler tud.12-13 yn yr Adroddiad Terfynol llawn y gellir ei gyrchu yma: [Adroddiad terfynol](#).



pandemig ac sy'n parhau i darfu ar bobl, nid yn unig o ran yr ymateb uniongyrchol lle roedd gofyn i bobl roi eu hunain mewn perygl sylweddol i wneud yr hyn y maen nhw'n ei wneud i gynnig gofal a chymorth I bobl. Mae hefyd 'waddol' sy'n effeithio megis problemau ariannol, argyfwng gweithlu a chynnydd yn y galw am wasanaethau.

- 1.14 Mae'r Ddeddf yn ffurf gymhleth o ymyriad yn gweithredu mewn cyd-destun cymhleth ac yn y pen draw angen cael ei werthuso fel y cyfryw. Mae'r cyd-destun wedi symud yn sylweddol yn ystod oes yr astudiaeth, ac oherwydd hyn, dydy'r dystiolaeth a gasglwyd gennym ddim yn adrodd stori syml nac unigol.

## 2. Cysyniadoli: mynegi egwyddorion y gellir eu gwerthuso a'r Ddeddf

- 2.1 Deliwyd gyda'n cwestiwn cyntaf – i ba raddau y mynegwyd egwyddorion ystyrllon y gellir eu gwerthuso? – yn bennaf drwy'r gwaith a wnaethon ni yn [Fframwaith ar gyfer Newid](#), [Adolygu Llenyddiaeth](#), ac i raddau yn [Safbwyntiau'r gweithlu ar weithredu'r Ddeddf](#).
- 2.2 Perthnasedd cael diffiniadau clir o egwyddorion allweddol y Ddeddf ydy bod hyn yn lleihau dryswch am eu diben neu eu hamcanion ymhlith y rhai sy'n gweithredu ar draws gwahanol barthau ein hastudiaeth (gweler Paragraffau 1.5 ac 1.6 uchod).
- 2.3 Mae sgôp i benderfynu ar ddiffiniad mwy manwl-gywir o lesiant gyda chysondeb cyddestunol sy'n adlewyrchu'r llenyddiaeth sy'n sail i'w ddefnydd mewn polisi. Mae'n bwysig i fod yn glir, er bod Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (NOF) yn cynnig syniad o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ydy penderfynyddion elfennau llesiant, dydy hyn ddim yn ddiffiniad o'r cysyniad.
- 2.4 Wrth benderfynu pa agweddau o fywyd sy'n cyfrannu at lesiant, mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn gweithredu'n ddigon da fel canllaw i ymarfer, fodd bynnag, prin ydy'r dystiolaeth bod y fframwaith yn cael ei ddefnyddio i gyfarwyddo tu hwnt i'r hyfforddiant cychwynnol.<sup>8</sup> Ar wahân i'r ymarfer, mae gan y diffiniad a'r cyfarwyddyd o dan y Ddeddf oblygiadau i'r modd y caiff llesiant pobl sy'n cyrchu gofal cymdeithasol ei fesur, ei dracio a'i riportio yng Nghymru. Doedd mesuriadau llesiant oedd ar gael yn ystod y gwerthuso ddim yn ddigonol i bennu'n bendant a ydy llesiant pobl yn cyrchu gofal cymdeithasol wedi newid ers i'r Ddeddf gael ei gweithredu.<sup>9</sup>
- 2.5 Mae'n amheus a ydyn ni i gyd yn defnyddio'r un "bar" i seilio barn fel hyn arno. Felly, procsïaid sydd ar ôl sy'n cynnig cliwiau i ni am beth ydy'r egwyddorion. Y sialens ydy nad ydy'n aml yn glir o'r Ddeddf beth sydd ei angen i gynnwys unrhyw un o'r procsïaid hyn. Er enghraifft, ystyried mai 'asedau' ydy pobl a defnyddio hyn fel procsi yn niffiniad cyd-gynhyrchu ond ni chaiff hyn hyd yn oed ei ddiffinio'n fanwl gywir.
- 2.6 Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad hwn yn dangos bod diffyg adnoddau i fesur a fu, neu i ba raddau y bu'r egwyddorion yn effeithiol i alluogi ymyriadau sy'n cyflawni amcanion y Ddeddf. Yn hytrach, mae'n nodi 'nodweddion' ymarfer a gwerthoedd

---

<sup>8</sup> Gweler Lyttleton-Smith et al. (2023) am ragor ar hyn.

<sup>9</sup> Ibid.


cysylltiol. Felly dydyn ni ddim yn gallu bod mor bendant am yr effaith a gyflawnwyd ag yr hofffen ni.

2.7 Mae diffyg diffiniadau clir o'r egwyddorion yn y Ddeddf a byddwn yn trafod canlyniadau hyn yn y bennod nesaf. Ac eto, dro ar ôl tro, roedd data'r gwerthusiad yn dangos bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ar draws y gweithlu yn cefnogi'r egwyddorion. Ond ni ddylid camgymryd y symud hwn tuag at eglurder fel galwad am gywirdeb manwl cul a diamod mewn diffiniadau ar draul dull mwy lleoledig a chyd-destunol o fynd ati, lle mae cyd-werthoedd, diben a dull o fynd ati yn llawer mwy pwysig na'r union eiriau ar dudalen.

### 3. Gweithredu : glynu at egwyddorion y Ddeddf yn ymarferol

- 3.1 Roedd yr ail o'n cwestiynau allweddol – ‘Os mynegwyd egwyddorion, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y cedwir atyn nhw yn ymarferol?’ – yn fater allweddol a ystyriwyd yn [Safbwyntiau'r gweithlu ar weithredu'r Ddeddf](#), a hefyd o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn yr adroddiad [Disgwyliadau a Phrofiadau Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr](#).
- 3.2 O safbwynt y gweithlu, rydyn ni wedi gweld tystiolaeth o ddehongliadau cadarnhaol o'r effaith sy'n deillio o ffocws ar yr egwyddorion. Yn yr un modd, mae ethos cyffredinol y Ddeddf, sef cydnabod pa mor ganolog ydy rhoi mwy o lais a rheolaeth i bobl, a dulliau o fynd ati megis sgysiau “yr hyn sy'n bwysig”, wedi helpu i oresgyn problemau traws-weithlu, er nad yn gyson bob amser. Mae hyn yn galluogi gweithwyr i weithio y tu hwnt i ymatebion rhagnodedig ac archwilio opsiynau ehangach. Efallai bod gan nod llesiant y Ddeddf oblygiadau positif ehangach hefyd i gymunedau petai ataliad ac ymyriad cynnar yn cael eu datblygu gyda dealltwriaeth gliriach o rolau sefydliadau ym maes llesiant a dealltwriaeth dreiddgar, unedig o gysyniad 'llesiant' i gynorthwyo hyn.
- 3.3 Wrth ddelio â chwestiwn yr adran hon, rydyn ni'n ystyried y modd y gwnaethon ni gydsyniadoli 'taith' weithredu'r gweithlu, a sut oedd pethau cyn Covid-19 (gweler Ffigur 3.1 drosodd).
- 3.4 Roedd y diagram yn ymgais i resymoli'r cymhlethdod yr ydyn ni wedi'i weld. Mae'n awgrymu, oherwydd y manau cychwyn gwahaniaethol ym mhob un o'r ardaloedd yng Nghymru, mae pedwar math gwahanol o ymarfer wedi'u hymgorffori yn y broses o weithredu'r Ddeddf hyd yma. Mae'r gwahanol fathau hyn o ymarfer wedi gofyn am raddau amrywiol o newid er mwyn diwallu'r gofynion gweithredu.
- 3.5 Mae newid yn y diagram yn digwydd mewn dau barth. Mae'r parth cyntaf yn cynnwys y mathau o weithgarwch ac arferion oedd, i raddau, fwy neu lai, eisoes wedi'u sefydlu cyn i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith. Mae'r ail barth yn ymwneud â mathau o ymarfer a oedd angen elfen o drawsnewid er mwyn bodloni dyletswyddau a gofynion y Ddeddf. Mae pedwar cam yn y broses hon: Parhad – (Cyn) Alinio; Parhad – Bodlon; Parhad – Amsugol; a Thrawsnewidiad.

**Ffigwr 3.1: Safbwyntiau'r gweithlu am y daith werthuso– Cyn-COVID 19**



- 3.6 Yn amlwg, mae nifer o ffyrdd lle llwyddwyd i roi'r egwyddorion ar waith. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pum egwyddor yn cynnig fframwaith 'cyd-gysylltiedig' gwerthfawr a bod gweithredu'r Ddeddf yn daith barhaus.
- 3.7 Mae ffocws ar lesiant fel nod ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael ei dderbyn fel cyfeiriad cadarnhaol gan bobl sy'n cyrchu a darparu gwasanaethau. Mae'n ymddangos ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar hinsawdd gwaith a chapasiti ar gyfer arloesedd sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu gofal cymdeithasol. Mae'r cysyniad yn gweithredu fel ideoleg sy'n cynnal gweithwyr proffesiynol o amgylch yr unigolyn a theuluoedd. Ond erys agenda sylweddol i weithio arni, yn rhannol oherwydd y ffordd y mae COVID-19 wedi defnyddio'r amser, y sylw a'r gallu yn andwyol, heb fod wedi canolbwyntio ar roi egwyddorion y Ddeddf ar waith.
- 3.8 Mae effeithiau'r pandemig ar weithredu'r egwyddorion yn rhai niferus. Arafwyd y cynnydd o ran gweithredu, cyflwyno'r ddarpariaeth, a gweithio integredig, sydd i gyd yn cael eu gosod yn erbyn effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach, ac yn erbyn cynnydd yn yr angen. Mewn ffyrdd eraill, roedd cyflymu mewn ymateb i'r pandemig. Mae rhoi dulliau newydd o weithio a modelau gofal ar waith a gwella

integreiddio yn ystod adeg o argyfwng yn amlygu penderfyniadau ac ymrwymiad i barhau i hyrwyddo a gweithredu egwyddorion y Ddeddf.

- 3.9 Yn gyffredinol, fodd bynnag, barn defnyddwyr gwasanaeth a gofalwr a rhai cyfranogwyr o'r gweithlu oedd na fu'r gweithrediad mor llwyddiannus ag a ragwelwyd. Mae diffyg cysylltiad rhwng rhethreg deddfwriaethol a realiti gweithredol.

#### 4. Optimeiddio: caniatáu i'r egwyddorion sicrhau'r canlyniadau dymunol o dan y Ddeddf

- 4.1 Natur grynodol sydd i'r cwestiwn olaf – ‘Os cedwir atyn nhw, i ba raddau ac yma mha ffyrdd ydy'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau dymunol?’ – yn tynnu ar ystod o dystiolaeth a gasglwyd, ond yn benodol o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn yr adroddiad [Disgwyliadau a Phrofiadau Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr](#), ynghyd â'r deunydd ychwanegol a geir yn yr adroddiadau ar bob un o'r egwyddorion (oedd yn ystyried datganiad a gweithrediad pum egwyddor y Ddeddf ar draws Cymru ([Llesiant](#), [Atal ac ymyrraeth cynnar](#); [Cyd-gynhyrchu](#); [Llais a Rheolaeth](#); [Gweithio'n aml-asiantaethol](#))).
- 4.2 Mae tystiolaeth glir a phendant o lwyth anhygoel o waith caled, brwdfrydedd, ymroddiad, ymaddasu ac ewyllys da o du rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r Ddeddf, o gofio graddfa a sgôp y sialensiau sy'n wynebu'r gweithlu gofal a'r gofalwyr di-dâl. Fodd bynnag, mae heriau'n dal i wynebu pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr pan ddaw i wireddu darpar obeithion egwyddorion a ffocws y Ddeddf.
- 4.3 Cafwyd hanesion positif yn ein data o allu cael rhywun i wrando, i ddylanwadu ac i ddiwallu anghenion, ac yn aml, roedd rôl staff unigol gwasanaethau cymdeithasol yn peri i hyn ddigwydd yn cael ei chydabod. Roedd rhoi adnoddau a phrosesau asesu ar waith – gyda chymorth (neu fel arall) adnoddau a gweithio aml-asiantaethol – yn ffactorau allweddol a luniodd sut cafodd profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eu gwella neu eu cyfyngu. Mae angen i fynd i'r afael â'r problemau gwaelodol o ran cydbwysedd grym a rheolaeth a gynigwyd i ddinasyddion fel rhan o'r Ddeddf (sy'n cynnwys cael mwy o reolaeth ariannol) a'r ymdeimlad o ddadrymuso a allai pobl ei brofi.
- 4.4 Mae gweithio mwy effeithiol rhwng ac o fewn sectorau yn hanfodol bwysig a bu'r Ddeddf yn gam positif wrth osod mwy o bwyslais ar yr angen i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio. Ceir tystiolaeth y gall gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd weithio'n dda ond yn aml yn cael ei ystyried yn achosi problemau ar ei orau ac mewn rhai achosion heb fodoli o gwbl er anfantais i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Amlygir hyn weithiau yn yr angen i dderbynwyr gwasanaeth i ysgwyddo cyfrifoldeb dros bontio'r gagendor rhwng asiantaethau. O safbwynt defnyddiwr gwasanaeth a gofalwr, gwelwn, er i'r Ddeddf gael eu hystyried yn ddatblygiad positif yn hyrwyddo rhagor o gydgyssylltu, roedd

diffyg gwaith aml-asiantaethol effeithiol wrth gynnig gofal a chymorth yn fwy cyffredin na bod yn eithriad.

- 4.5 Mae ein tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod angen mwy o gydnabyddiaeth o rôl allweddol y trydydd sector yn y gwaith hwn ac am fuddsodd pellach yn y sector hwn os ydy canlyniadau allweddol y Ddeddf i'w cyflenwi.
- 4.6 Dydy hi ddim yn bosibl gwahanu effaith yr Ddeddf oddi wrth effaith y pandemig na dylanwadau eraill posibl o ran llesiant cyffredinol defnyddwyr gwasanaeth. Hefyd, does dim digon o dystiolaeth meintiol o ran mesur llesiant pobl o dan y Ddeddf i ddatgan yn bendant sut mae llesiant wedi newid ar gyfer y boblogaeth o ddiddordeb. Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg ydy bod pandemig COVID -19 wedi effeithio'n uniongyrchol ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr fel yr adroddwyd yn ein cyhoeddiadau blaenorol .
- 4.7 I'r mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn, roedd eu profiad yn un o rwystredigaeth. Yn groes i'r 'gobaith' a'r 'addewid' a gynigwyd gan egwyddorion sylfaenol y Ddeddf, dynodon nhw gyfres o rwystrau. Roedd y rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, ddull cymharol 'tocynistaidd' o wrando, anghydbwysedd grym rhyngddyn nhw a'r gweithwyr proffesiynol, yr angen i fynd yn barhaus ar ôl gweithwyr proffesiynol am gymorth, diffyg cydnabyddiaeth o'u hawliau, yn enwedig o ran materion o ansensitifrwydd diwylliannol.
- 4.8 Ar sail y dystiolaeth hon, awgrymwn fod pellter rhwng rethreg uchelgeisiol iawn asiantaeth unigol o dan y Ddeddf a'r mater eithriadol o gymhleth ac, yn aml yn amherffaith, o ddeddfu hyn mewn achosion unigol a all achosi rhwystredigaeth a strés. Roedd hyn yn arbennig o ddifrifol pan geisiai pobl oedd angen gwasanaethau eu cyrchu gan sylweddoli nad oedd y ddarpariaeth honno ar gael neu heb ei chyflenwi mewn modd oedd yn cynorthwyo eu llesiant neu oedd yn anaddas ar eu cyfer.
- 4.9 Mae dau beth pwysig i'w nodi wrth ymateb i gwestiwn hollgyffredinol yr adran hon. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chymal cychwynol y cwestiwn. Glynwyd i ryw raddau i'r egwyddorion wrth roi'r Ddeddf ar waith, ond mae'r data yn dangos amrywiaeth o ran maint ac ansawdd ar draws Cymru. Yn ail, cafwyd ffactorau materol a chyd-destunol anrhagweladwy sydd wedi llesteirio i ba raddau y gellir cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, a hynny'n deg. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod y Ddeddf yn cynnig fframwaith ar gyfer ffurf o ymarfer o'r newydd, ond mae canfod cyflymder cyflenwi'r



canlyniadau yn fater tu hwnt o gymhleth. Ymddengys bod cyfyngiadau ar adnoddau a darpariaeth leol anghyfartal – ynghyd â ffactorau allanol tu allan i reolaeth y llywodraeth – yn atal i brofiadau pobl rhag cael eu hoptimeiddio. Hyd yma, dydy canlyniadau ddim yn cael eu cyflenwi yn y dull cyson a chynaliadwy a amlinellwyd yn y Ddeddf.

## 5. O'r Ddeddf i'r effaith? Argymhellion a chwestiynau prawf ar gyfer trawsnewid.

5.1 Felly, beth ydy'n casgliadau ni? Mae'r pwyntiau bwled isod yn cynrychioli 'stori' ein hastudiaeth. Cyfres o osodiadau ydyn nhw sy'n crynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd gennym a'r her, yn ein barn ni, sydd yn bodoli wrth feddwl am y Ddeddf:

- Mae'r ddeddfwriaeth a'i hegwyddorion sylfaenol, yn cynnig fframwaith wedi'i gefnogi'n dda ar gyfer newid wrth ymarfer a chyflenwi gwasanaethau cymdeithasol;
- Mae 'teithio' yn drosiad cyson a defnyddiol a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr ac yn enwedig y gweithlu i ddisgrifio'r broses o roi'r egwyddorion ar waith;
- Mae'r cyd-destun y gosodwyd y Ddeddf ynddi wedi newid dros amser ac mewn ffyrdd heb eu tebyg o'r blaen. Mae ffactorau cyd-destunol wedi datblygu'n fwy dwys yn ystod oes y Ddeddf. Mae'r grymoedd o ran y pandemig iechyd cyhoeddus byd eang, argyfwng y gweithlu ac argyfwng costau byw ynghyd â sialensiau hirdymor o ran demograffeg a chyni/caledi, wedi creu realiti newydd ac aciwt nad oedd yn bodoli o gwbl yn 2016 neu o leiaf ddim i'r un graddau;
- Tarfwyd ar y 'man setliad' (*place of settlement*) lle roedd consensws o optimistiaeth am y Ddeddf yn bodoli yn 2016, gan yr holl rymoedd cyd-destunol hynny. Mae'r amgylchiadau heriol unigryw hyn wedi gorfodi rhanddeiliaid i symud o'r man setliad hwnnw;
- Ceir tystiolaeth glir a chymhellol o waith caled anhygoel rhanddeiliaid, eu brwdfrydedd, eu hymroddiad, eu parodrwydd i addasu a'u hewyllys da o gofio graddfa ac ystod y sialensiau yn wynebu'r gweithlu gofal a'r gofalwyr di-dâl fel ei gilydd, ond mae hefyd dystiolaeth glir a chymhellol o'r problemau sy'n dal i fodoli o fewn y system. Fodd bynnag, nid stori am briodoliad ydy'r Adroddiad Terfynol – mae'r naratif yn ddadleuol, yn gymhleth, llawn arlliwiau ac aflêr heb esboniadau syml na datrysiadau hawdd;
- Mae'r dystiolaeth yn dangos y gallwn ni fod yn bositif am y modd y lluniwyd cysyniad y Ddeddf; mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallwn fod yn llai positif a chael ein herio wrth ystyried gweithrediad y Ddeddf, a llai positif fyth o gofio'r sialensiau cyd-destunol a crybwyllwyd wrth feddwl am gyflenwi gwasanaeth ac optimeiddio ar draws yr holl system;

- Nodwyd cryfderau cyson ac ar draws rhanddeiliaid yng nghyfnod cyntaf oes y Ddeddf (fel y deddfwyd). Ceir darlun, positif i raddau helaeth ond ychydig yn gymysg am yr ail gyfnod, pan droswyd y Ddeddf o ddeddfwriaeth ‘ar bapur’ i’w rhoi ar waith (fel y gweithredwyd). A cheir safbwyntiau llawer mwy negyddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr nad oedd yn gallu cyflawni’r canlyniadau dymunol o’r gofal a’r cymorth roedden nhw’n ei dderbyn mor gyson ag yr hoffon nhw (fel y profwyd);
- Oherwydd hyn, daeth ein hastudiaeth i’r casgliad bod ymdeimlad cynyddol o wahanu oddi wrth y weledigaeth o wasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar egwyddorion – lle mae gwasanaethau cymdeithasol yn chwarae rôl yn helpu’r unigolyn a chyd-lesiant, lle mae timoedd o ymarferwyr yn cydweithio ar draws asiantaethau i gynnig cyfleoedd i bobl i fynegi eu dymuniadau, yn rheoli eu dyfodol a chyd-lunio eu canlyniadau a dim ond pan na fydd mesurau ataliol yn llwyddo i’w cadw rhag cyrchu gwasanaethau cymdeithasol.
- Canlyniad hyn oedd bod llawer o bobl a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth hon yn teimlo nad ydy addewid yr egwyddorion hyn cael eu gwireddu a phriodolir hynny yn rhannol i’r ffactorau sydd wedi effeithio ar wasanaethau cymdeithasol ers i’r Ddeddf gael ei chyflwyno a hynny’n eu gwneud i deimlo’n rhwystredig;
- Mae’r gyfres o ‘gwestiynau prawf’ (gweler isod) a ddynodwyd drwy ddadansoddiad gan y tîm ymchwil yn cynnig llwyfan ar gyfer adnewyddu ac ail-ffocysu ar egwyddorion craidd y Ddeddf. Ein hargymhelliad ydy y gall y cwestiynau hyn fod yn fodd i gynorthwyo deialog ymhlith rhanddeiliaid er mwyn bywiogi ac ail-fywhau gweledigaeth y Ddeddf ar ôl COVID; a
- Dydy’r daith tuag at lwyr wireddu nod uchelgeisiol y Ddeddf ddim yn gyflawn, fel y mynegwyd yn gyffredinol ym marn cyfranogwyr yr astudiaeth hon. Y cwestiwn felly ydy, beth ydy’r cam nesaf ar y daith, pwy ddylai ei chymryd, i ble mae’n arwain a phryd byddwn ni’n gwybod ein bod wedi cyrraedd?

### **‘Cwestiynau prawf’ wedi’u mapio i fwriadau strategol y Ddeddf**

- 5.2 Gan adeiladu ar hyn, rydyn ni wedi nodi 19 o gwestiynau a drefnir a’u mapio yn wyth o fwriadau strategol y Ddeddf. Mae’r cwestiynau yn deillio o ddadansoddiad a synthesis yr holl dystiolaeth a gasglwyd gennym ac mae pob cwestiwn yn adeiladu ar y meysydd diffygiol a nodwyd yn y dystiolaeth honno.

5.3 Cwestiynau agored ydyn nhw i'r sector eu ystyried ymlaen llaw cyn camau nesaf y daith:

**Bwriad Strategol 1: Cynnig help a chymorth i bobl allu asesu eu hanghenion a threfnu a sicrhau'r gwasanaethau gofal a chymorth sydd eu hangen arnyn nhw**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliant yn y meysydd canlynol:*

1. cynnig gofal cymdeithasol a cymorth sy'n atgyfnerthu tosturi a dulliau sy'n canolbwyntio ar berthynas?
2. y modd y cynhelir asesiadau ar gyfer gofal cymdeithasol, pryd a gan bwy fel eu bod yn manteisio i'r eithaf ar gynnig y canlyniadau llesiant gorau posibl ar gyfer unigolion a gofalwyr?
3. digonedd, priodoldeb a chynaliadwyedd cyllid fel y gellir cynorthwyo a gofalu am y rhai hynny ag anghenion cymwys yn ôl diffiniad y Ddeddf?
4. recriwtio a chadw gweithlu, er mwyn sicrhau ansawdd, digonedd a chynaliadwyedd?

**Bwriad Strategol 2: Creu systemau a dulliau o fynd ati sy'n rhoi blaenoriaeth i farn y dinesydd, yn seiliedig ar wir gyd-gynhyrchu a rhoi mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau eu hunain a'u gofal a'u cymorth er mwyn cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer eu llesiant**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliant yn y meysydd canlynol:*

5. mecanweithiau ac atebolrwydd llywodraeth leol ar gyfer cyflawni hawliau pobl o dan y Ddeddf heb orfod mynd drwy broses wrthwynebol o achwyniad?
6. carfan o ddinasyddion yn sicrhau bod lleisiau'r bobl na chlywir prin mohonyn nhw a'r bobl yn aml ar ymylon cymdeithas yn atseinio, gan arwain at newid sylweddol yn eu profiadau?
7. ystod ac ansawdd ffurfiau arloesol o gymorth dan gyfarwyddyd dinasyddion sydd ar gael o dan y Ddeddf yn cynnwys, ond, yn bwysig, heb fod yn gyfyngedig i Daliadau Uniongyrchol?
8. cymorth ar gyfer yr unigolion egwyddorol a brwd hynny sydd mewn sefyllfa i hyrwyddo a helpu i ymgorffori arferion cyd-gynhyrchu?

**Bwriad Strategol 3: Gosod yr agenda llesiant ac atal wrth galon cynllunio strategol, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau; a Bwriad Strategol 6. Creu cydadwaith effeithiol rhwng llesiant, atal, cyd-gynhyrchu, asesu, cymhwyster a chymorth**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliant yn y meysydd canlynol:*

9. dealltwriaeth o broblemau sylfaenol a ffactorau achosol i fod yn sail i strategaethau ataliad ym maes gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â modelau effeithiol, adnoddau a newidiadau yn yr hinsawdd trefniadol?
10. cydbwysedd rhwng y tensiynau sy'n anghyson â'i gilydd o ran y ddyletswydd i benderfynu ar y ddarpariaeth leol i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol (fel y nodir yn yr Asesiadau o'r Boblogaeth a'u diffinio yn y Cynlluniau Ardal); a phwysigrwydd cynnig darpariaeth gofal cymdeithasol 'gyffredinol', waeth beth fo'r ddaearyddiaeth sy'n osgoi pobl rhag meddwl bod 'loteri cod post' yn bodoli?
11. mireinio ac ailddiffinio syniadau sylfaenol egwyddorion y Ddeddf; ail-ymglymu pobl a chadw'r egwyddorion yn ddeinamig?

**Bwriad Strategol 4: Creu newid yn yr holl system a chreu modelau newydd o ofal a chyflenwi gwasanaeth**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliant yn y meysydd canlynol:*

12. datblygu hinsawdd arloesedd, creadigrwydd a gwella ansawdd yn hytrach na dim ond cydymffurfio?
13. rôl a statws sydd gan fentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol o dan y Ddeddf er mwyn cynorthwyo unigolion, gofalwyr a chymunedau?
14. i ba raddau mae arferion da a gwybodaeth am y system yn 'teithio' ar draws Cymru?

**Bwriad Strategol 5: Mabwysiadu dull ardal leol 'gyfan' o fynd ati, yn seiliedig ar ymglymiad ystyrllon a diwallu anghenion y boblogaeth a Bwriad Strategol 8: Sicrhau mynediad i wybodaeth dda, cyngor a chymorth i bobl ddod o hyd i wasanaethau cyffredinol sydd ar gael yn y gymuned**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliant yn y meysydd canlynol:*

15. ansawdd, ystod, cysondeb a gweithredu casglu data, ei ddadansoddi a'i ddehongli er mwyn datblygu a gwella gwasanaethau?
16. cynllunio poblogaeth a phrosesau ymglymu sy'n ymglymu pobl leol yn ystyrllon am eu hanghenion?
17. gwybodaeth, cyngor a chymorth sydd gan defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr cyn cyrchu'r system gofal cymdeithasol ac wrth ei chyrchu, ynghyd â dealltwriaeth o'u hawliau o dan y Ddeddf fel y rheolir eu disgwyliadau yn briodol?

## **Bwriad Strategol 7: Llwyddo i integreiddio gwasanaethau llywodraeth leol a rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid, yn enwedig y GIG, i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer unigolion, gofalwyr a chymunedau**

*Beth sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliant yn y meysydd canlynol:*

18. gweithio ac arferion aml-asiantaethol (yn cynnwys diogelu) ac yn yr arferion o weithio o hirbell a dysgu o bell ar gyfer rhai ffurfiau o ryngweithio?
19. datrysiadau technolegol sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol, yn enwedig yng nghyd-destun ôl-pandemig o bwysau ar y system a phrinder gweithlu?

### **Sylwadau clo**

- 5.4 Sefydlwyd fframwaith y Ddeddf i alluogi y polisi trawsnewidiol, newid sefydliadol a lefel y system, gan arwain at newid yn y modd y cyflenwir gofal a chymorth. Byddai canlyniad yr holl weithgarwch hwn yn cael ei adlewyrchu ym mhrofiadau'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth a, thros amser, yn arwain at well llesiant i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, a chyrhaeddiad gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.
- 5.5 Rhaid i ni ddod i'r casgliad, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd dros y pedair blynedd diwethaf, nad ydy'r pwyntiau cyrchfan hyn wedi'u cyrraedd o ran lefel y system gyfan, er y bu i rymoedd sylweddol arafu a dargyfeirio pobl ar y daith.
- 5.6 Y cwestiwn nawr mewn gwirionedd ydy i ba raddau mae'r sector cyfan yn credu, wrth fynd i'r afael â'n cwestiynau prawf gyda'n gilydd, y gallai fod yn bosibl i ailddatgan pwrpas cyffredin. Os felly, mae gwireddu'r egwyddorion yn llawn yn cynnig y map a'r arweinlyfr i'r teithiwr parod ar sut y gellir cyflawni hyn.

## Cyfeiriadau

ADSS Cymru & NHS Confederation (2014) *Implementation of the Social Services and Well-Being (Wales) Act, 2014: Self-Assessment Tool*.

Anderson P., Lyttleton-Smith J., Kosnes L., Read S., Blackmore H. & Williams Z. (2020) 'Well-being' in Llewellyn, M., Verity, F. and Wallace, S (eds). (2020) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 60/2020. Ar gael ar: [Literature review](#).

Andrews, N., Calder, G., Blanluet, N., & Baker, R. (2022). *Co-production: research to support the Final Report of the Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 38/2023. Ar gael ar: [Co-production](#).

Archwilydd Cyffredinol Cymru, (2014) *The Financial Resilience of Councils in Wales*, Swyddfa Archwilio Cymru.

Blythe J, Silver J, Evans J, Armitage D, Bennett NJ, Moore M-L, Brown K (2018) The dark side of transformation: latent risks in contemporary sustainability discourse. *Antipode*, 50(5):1206–1223: [The dark side of transformation](#).

Clark, P. (2019). 'Problems of Today and Tomorrow': Prevention and the National Health Service in the 1970s. *Social History of Medicine*. hgz018, [Prevention and the National Health Service in the 1970s](#).

Davey C, Hassan S, Bonell C, Cartwright N, Humphreys M, Prost A, Hargreaves J, (2017) *Gaps in Evaluation: Methods for Addressing Challenging Contexts in Development*. CEDIL Pre-Inception Paper: London/Llundain [Gaps in Evaluation: Methods for Addressing Challenging Contexts in Development](#).

Gough, I. (2013). The Political Economy of Prevention. *British Journal of Political Science*. 45 (2): 307-327. [The Political Economy of Prevention](#).

Hussein, S. (2017). "We don't do it for the money"...The scale and reasons of poverty-pay among frontline long-term care workers in England. *Health and Social Care in the Community*, 25(6), 1817-1826. [We don't do it for the money](#).

Ifan, G. & Sion, C. (2019) *Cut to the bone? An analysis of Local Government finances in Wales, 2009-10 to 2017-18 and the outlook to 2023-24*. Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru. Ar gael: [Cut to the bone?](#)

Independent Commission on Social Services in Wales (2010) *From Vision to Action: the Report of the Independent Commission on Social Services in Wales* – available from: [Independent commission on social services in Wales](#).

Llewellyn M. (2022) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: expectations and experiences of Black, Asian and Minority Ethnic service users and carers*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, GSR report number 32/2022. Ar gael ar: [Evaluation of the Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014: expectations and experiences of Black, Asian and Minority Ethnic service users and carers](#).

Llewellyn M., Saltus R., Blackmore H., Tetlow S., Williams Z. & Wallace S. (2020) 'Voice and Control' in Llewellyn, M., Verity, F. and Wallace, S (eds). (2020) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 60/2020. Ar gael ar: [Evaluation of the Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014: literature review](#).

Llewellyn M., Saltus R., & Kent, W. (2022). *Voice and Control: research to support the Final Report of the Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 41/2023. Ar gael ar: [Voice and control](#).

Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (eds). (2020) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 60/2020. Ar gael ar: [Literature Review](#).

Llewellyn M., Verity F., Wallace S. & Tetlow S. (2021) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Process Evaluation*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 2/2021. Ar gael ar: [Process Evaluation](#).

Llewellyn M., Verity F., Wallace S. & Tetlow S. (2022) *Expectations and Experiences: Service User and Carer perspectives on the Social Services and Well-being (Wales) Act*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 16/2022. Ar gael ar: [Expectations and experiences](#).

Lyttleton-Smith, J., Anderson, P., Read, S., & Harris, S. (2022). *Well-being: Research to support the Final Report of the Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 37/2023. Ar gael ar: [Well-being](#).

Marczak, J., Wistow, G., & Fernandez, J. (2019). Evaluating Social Care Prevention in England: Challenges and Opportunities. *Journal of Long-Term Care*, (2019), pp. 206– 217. [Evaluating Social Care Prevention in England](#).

Moriarty, J., Manthorpe, J., & Harris, J. (2018). *Recruitment and Retention in Adult Social Care Services*. Social Care Workforce Unit, Kings College London/Llundain. [Recruitment and Retention in Adult Social Care Services](#).

NHS England (2018). *Leading Large Scale Change: A practical guide*. Ar gael ar: [NHS England » Leading Large Scale Change](#).

Plsek PE, Greenhalgh T (2001). 'The challenge of complexity in healthcare'. *BMJ*, 323:625-8. [The challenge of complexity in healthcare](#)'.

Parliamentary Review of Health and Social Care in Wales (2018) *A Revolution from Within: Transforming Health and Care in Wales* – Ar gael ar: [Parliamentary Review of Health and Social Care in Wales Final Report](#).

Patton, M. Q. (2018). *Principles-Focused Evaluation - The GUIDE*. Efrog Newydd/New York: Guilford Press

Read S., Verity F., & Richards J. (2022) *Prevention and Early Intervention: research to support the Final Report of the Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 43/2023. Ar gael ar: [Prevention and Early Intervention](#).

Squires, J.E., Hoben, M., Linklater, S., Carleton, H.L., Graham, N. & Estabrooks, C.A. (2015) 'Job satisfaction among care aides in residential long-term care: A systematic review of contributing factors, both individual and organizational'. *Nursing Research and Practice*, v.2015 [Job satisfaction among care aides in residential long-term care](#).

Tew, J., Duggal, S., Carr, S., Ercolani, M. et al. (2019). Implementing the Care Act 2014: building social resources to prevent, reduce or delay needs for care and support in adult social care in England [online]. Ar gael ar: [Implementing the Care Act 2014](#).



Verity, F., Read, S., & Richards, J. (2020). 'Chapter 3: Prevention and early intervention literature review' in Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (eds). (2020) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 60/2020. Ar gael ar: [Literature Review](#).

Verity, F., Andrews, N., Blackmore, H., Calder, G., Richards, J. & Llewellyn, M. (2019). *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Framework for Change Report*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 38/2019 Ar gael ar: [Framework for Change](#).

Wallace, C. & Garthwaite, T. (2022) *Multi-agency: research to support the Final Report of the Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 39/2023. Ar gael ar: [Multi-agency](#).

Wallace S, Verity F. & Llewellyn M. (2022) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Process Evaluation – Workforce Perspectives on the Act Post-COVID*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR report number 40/2023. Ar gael ar: [Process Evaluation – Workforce Perspectives on the Act Post-COVID](#).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) *Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action* – Ar gael ar: [Sustainable social services](#).

Llywodraeth Cymru (2013) *Social Services and Well-Being (WALES) Bill, Explanatory Memorandum* Caerdydd – Ar gael ar: [Social Services and Well-being Act Explanatory Memorandum](#).

Llywodraeth Cymru (2014). *Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: [Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014](#).

Llywodraeth Cymru (2015). *Social Services and Well-being Act 2014: Part 2 Code of Practice (General Functions)*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: [Part 2 Code of Practice](#).

Llywodraeth Cymru (2020). *Performance and Improvement Framework for Social Services*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: [Performance and Improvement Framework for Social Services](#).